Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 494 (Cy. 85)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â Byrddau Diogelu Plant a sefydlir o dan adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Byrddau Diogelu Oedolion a sefydlir o dan adran 134(5) o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 2 yn newid y partner arweiniol ar gyfer Ardal Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 494 (Cy. 85)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Ebrill 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *20 Ebrill 2018* |
| *Yn dod i rym* | *25 Mai 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 134(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r partneriaid Bwrdd Diogelu ar gyfer yr ardal yn unol â'r adran honno o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2018 a deuant i rym ar 25 Mai 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015

**2.** Yn yr ail golofn a'r drydedd golofn o Atodlen 2 (Partneriaid Arweiniol) i Reoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015(**2**) yn lle "Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy" rhodder "Cyngor Sir Ddinbych".

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1357 (Cy. 131).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
17 Ebrill 2018